Cofnodion cyfarfod rithiol 14 Rhagfyr 2021 a gynhaliwyd drwy ddefnyddio offer digidol Zoom am 6 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iwan Huws		
Daniel Williams	Iestyn Harris	
Dafydd Huws	Eifion Williams	
Nerys John	Cynog Prys	
	Gareth Griffiths – Cynghorydd Sir	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
	Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cadeirydd Iwan Huws. Cyfeiriodd y Cadeirydd at ginio Nadolig cafwyd yn y Garddfon er mwyn ffarwelio a diolch yn ffurfiol i Mr Wynne Barton am ei waith i'r Cyngor ar hyd y blynyddoedd a Mr Wynne Barton yn ffurfiol ac yn wyneb yn wyneb. Derbyniwyd newydd fod Cynghorydd Casi Roberts wedi rhoi genedigaeth i fab yn ddiweddar, estynnwyd llongyfarchiadau iddi hi a'i gwr ar yr achlysur. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y cynghorwyr canlynol: Casi Roberts, Llŷr Evans, Emyr Gareth, Lliwen Griffith-Williams	
1.1	Ardal Ni 2035 - mae ymateb i'r holiadau ar hyn o bryd ar e-byst y neuadd ond nid oes mynediad i'r safle ar hyn o bryd gan y Clerc. Ar hyn o'r bryd y Cynghorydd Casi Roberts yn unig sydd efo'r mynediad i'r safle. Y Clerc i weld os oes modd newid y trefniant i'w chynnwys hithau hefyd.	**CLERC**
12	Bwyd Bendigedig - Anfonwyd adroddiad at y Cyngor ynglŷn â phrosiectau'r grŵp - gweler yr adroddiad yn yr atodiad. Mae'r Grŵp wedi derbyn £2000 gan fenter y Siop 'Pop-Up' yn dilyn y Sêl Fawr. Mae'r Cyngor yn gefnogol iawn i'r cynlluniau sydd yn yr adroddiad ynghylch datblygiadau yn ardal Cae Chwarae Lan Mor. Mae'r grŵp hefyd wedi llwyddo gyda'r cais am grant gan Prosiect Môn a Menai. Bydd y Cynghorydd Dan Williams a 'r Cynghorydd Nerys John yn cyfarfod a'r grŵp i drafod gosod bwrdd picnic a 'raised beds' ar y Lôn Las wrth y fynedfa o Benybryn yn fuan yn y flwyddyn Newydd. Roedd aelodau'r Cyngor yn llongyfarch y grŵp gyda'r llwyddiant i godi arian ac yn werthfawrogol o'r gwaith sydd yn cael ei wneud ganddynt yn y pentref.	**DW/NJ**
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**	
2.1	Nid oedd adroddiad ffurfiol wedi ei baratoi. Fe gyfrannodd y Cynghorydd Sir i'r eitemau lle'r oedd ganddo ddiweddariad i'w adrodd.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	

4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL**	
4.1	Cyflwynwyd y gwariant ar gyfer mis Tachwedd 2021 ac eglurwyd y sefyllfa ariannol. Derbyniwyd y gwariant a'r adroddiad ariannol.	
4.2	Cyllid 2022-2023 - er bod cyllideb drafft wedi eu cyflwyno nid oedd y gyllideb drafft yn un terfynol. Penderfynwyd byddai'r clerc yn anfon un drafft ar gyfer yr is-bwyllgor cyllid er mwyn iddynt ystyried y wybodaeth a gwneud argymhellion ar gyfer y Cyngor yn Mis Ionawr 2022. Yng nghyfarfod mis Ionawr bydd angen gwneud penderfyniad ar y praesept a derbyn y gyllideb ddrafft.	**CLERC/CYLLID**
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Cadarnhawyd Cofnodion mis Tachwedd 2021 fel rhai cywir.	**CLERC**
5.2	Drop In – nid Gareth Griffiths heb dderbyn fwy o wybodaeth ar y fenter yma. Os bydd gwybodaeth bellach bydd yn dod a'r mater gerbron y Cyngor.	
5.3	Tir Lithriad , Ger y Nant - Gareth Griffiths - dywedodd bod bawb o'r bobl sydd wedi eu heffeithio bellach wedi cael eu hail gartrefi, Nid yw pawb wedi llwyddo i'w cael eu hail-gartrefu dros dro yn Y Felinheli. Adroddodd y Cynghorydd Gareth Griffiths bod yna 6 mis neu fwy o wait i wneud i ddiogelu'r safle. Nid oes gweithred i'r Cyngor Cymuned. Mae'r mater yn derbyn sylw a gweithred gan Cynefin.	
5.4	Parcio Hen Gei Llechi – dim gweithred wedi bod hyd yma. Y mater am dderbyn sylw gan Tregwylan yn eu cyfarfod nesaf.	**IW**
5.5	Toiledau - dim gweithred wedi bod i ddiweddaru'r gwaith ar yr asesiad risg a'r "method Statement". Mae'r Contractwr ar hyn o bryd yn rhoi blaenoriaeth i drwsio llawr y neuadd, hefyd nid yw'r tywydd yn ffafriol ar gyfer gwneud gwaith ar du allan i'r toiledau ar hyn y bryd.	**EW/CLERC**
5.6	Gwaith Priffyrdd – i. Wal Gynnal Hen Gei Llechi - roedd y Clerc wedi bod mewn cysylltiad â Chyngor Gwynedd ar gyfer diweddariad ar y mater hwn. Nid yw Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn gwybod pwy yw perchnogaeth ar y rhan yma o'r wal. Pe bai Cyngor Gwynedd yn gwneud yn gwneud unrhyw waith ar y safle byddai yn gosod cynsail a chan bod rhannau eraill o'r wal angen waith nid ydynt yn gallu symud ar y mater ar hyn o bryd. Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon at bennaeth Bwrdeistrefol ar y mater. ii. Y Ffordd gyferbyn a'r feddygfa - dywedodd y Clerc bod Arolygydd y Cyngor wedi sicrhau bod y gofod lle mae wal i'w chodi ar y ffordd wedi cael "cones" er mwyn rhoi rhybudd o berygl i ddefnyddwyr y ffordd. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd anfon eto at yr adran priffyrdd i ddangos bod adeiladu'r wal wedi cychwyn ond yn anffodus mae'r sianel sydd rwng y	**CLERC**

	wal a'r ffordd yn beryg. Llun wedi ei anfon gan y Cynghorydd Dan Williams er mwyn eglurhad i'r adran briffyrdd. iii. Gullies - cafwyd gwybodaeth gan yr Adran Bwrdeistrefol ynglŷn â chlirio'r gullies - dim ond yn flynyddol mae'r gullies yn derbyn gwasanaeth os nad oes risg i eiddo cyfagos gael llifogydd. Penderfynwyd anfon at yr adran i gael gwybod amserlen gweithredu'r gullies yn y Felinheli. iv. Biniau Halen - cafwyd gwybodaeth gan y Cynghorydd Gareth Griffiths bod biniau halen o hyn ymlaen yn mynd i gael eu gwasanaethu ar gost y Cyngor Sir.	
5.7	Ciosg Lan y Môr - bellach rydym wedi derbyn cadarnhad gan BT bod y Cyngor wedi cael hawl i fabwysiadu'r ciosg. Mae cytundeb wedi ei anfon er mwyn i Gadeirydd y Cyngor ei arwyddo. Mae'r Cynghorydd Iestyn Harris wedi edrych a'r manylder y cytundeb. Y Clerc i gysylltu gyda Cwmni yswiriant y Cyngor i ychwanegu y Ciosg at asedau y Cyngor. Bydd angen cael trafodaeth ar gyfer defnydd dyfodol y ciosg maes o law. Roedd un o drigolion y pentref wedi holi'r Cynghorydd Daniel Williams ynghylch y ciosg yn Aberpwll.Cadarnhawyd bod y Ciosg yma dan reolaeth BT o hyd gan fod y rhan yma o'r penref yn ardal o gadwraeth.	
5.8	Llwybrau - mae adroddiad blynyddol y llwybrau cyhoeddus wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd ynghyd a chais am gyfarfod rhithiol. Mae e-bost pellach wedi ei anfon at Gyngor Gwynedd ar gyfer cael dyddiadau ar gyfer cyfarfod rhithiol, nid oes ymateb wedi bod hyd yma. Y Clerc I barhau a'r cais ar gyfer dyddiad cyfarfod.	**CLERC**
5.9	Cae Chwarae Lan y Môr - er nad oedd y Cynghorydd Gareth yn bresennol roedd wedi anfon gwybodaeth ar y mater dwy'r clerc. Eglurwyd nad oedd y Contractwr gwreiddiol wedi ymateb gyda gwybodaeth gan gontractwyr lleol a fyddai yn gallu helpu i gwblhau'r datblygiad i'r cae chwarae. Oherwydd hyn gwnaed cais am gontractwyr lleol i ymgymryd â'r Gwaith. Dim ond un sydd wedi ymateb i gais y Cynghorydd. Derbyniwyd pris sydd y £10k mwy a'r hyn sydd wedi ei neilltuo. Penderfynwyd bod rhaid symud ymlaen i gwblhau'r gwaith hwn a Chytunwyd i neilltuo'r arian angenrheidiol.	**CLERC**
5.10	Lamp Cerrig yr Afon - dywedodd y Clerc bod y lamp wedi cyrraedd depo goleuadau stryd Cyngor Gwynedd a bod un rhan ei angen eto cyn fydda'r gwaith ar y safle yn gallu cael ei gwblhau a bod yn lamp yn gweithio. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau'r wythnos hon.	**CLERC**
5.11	Safle Moria - mae dau bris wedi ei dderbyn, pris ar gyfer defnyddio rhisgl a phris arall ar gyfer llechi man. Bydd y Cynghorydd Iwan Huws yn rheoli'r cynllun. Y Clerc i anfon manylion ffôn y contractwr i'r cynghorydd er mwyn iddo gysylltu yn uniongyrchol a'r contractwr.	**CLERC**

5.12	Maes Parcio - dywedodd y Clerc bod Cyngor Gwynedd wedi cysylltu ynglŷn â'r cerbydau sydd wedi eu gadael yn y Maes Parcio. Oherwydd bod y Maes Parcio mewn perchnogaeth y Cyngor Cymuned, cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw sicrhau eu symud. Mae Cyngor Gwynedd yn gallu helpu drwy gael enwau'r perchnogion. Cafwyd gwybodaeth ar berchnogaeth y cerbyd Toyota. Penderfynwyd byddai'r Cynghorydd Dan Williams yn cael sgwrs anffurfiol gydag un person ynglŷn â dau o'r cerbydau.	**CLERC**
6.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
6.1	Rhif Cais : C21/1141/20/LL Lleoliad: Tŷ Coed, Y Gelli Gyffwrdd, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QN Bwriad : Cais ar gyfer newid defnydd byngalo llety staff i uned wyliau hunan cynhaliol - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	**CLERC**
6.2	Adroddodd y Cynghorydd Gareth Griffiths bod Cais cynllunio ar gyfer datblygu Safle Ferodo wedi cael ei droi i lawr.	
7.0	**PRIFFYRDD, MEINCIAU A CHYSGODFANNAU**	
7.1	Mae cysgodfan gwaelod Brynffynnon gyda graffiti. Trafodwyd y mater ac ystyried gosod darlun fel sydd ar y gysgodfan gwaelod allt Tafarngrisiau arno. Penderfynwyd byddai'r Cynghorydd Eifion Williams a'r Cynghorydd Dan Williams yn edrych arno i weld os oedd modd ei lanhau ac os byddai angen ei lanhau gan arbenigwr os hynny cael pris erbyn cyfarfod mis Ionawr.	**EW/DW**
8.0	**LLWYBRAU A LON LAS**	
8.1	Cafwyd gwybodaeth bod giatiau'r Lon Las ger Penybryn fel arfer wedi eu cloi ond bellach mae'r giatiau wedi torri ac wedi eu tynnu oddi ar y safle. Bydd y mater yma yn derby sylw'r Cynghorydd Sir.	**GG**
8.2	Mae llwybr sydd yn ymyl Rhyd y Fenai yn cael ei gydnabod fel llwybr cysylltiol (Link Path). Credir mai cyfrifoldeb ADRA yw. Mae'r llwybr gyda stepiau ond yn anffodus nid oes canllaw arno sydd yn gwneud ei ddefnyddio yn anodd i drigolion bregus sydd yn byw yn ymyl. Y Clerc I wneud ymholiadau gydag Adran Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd ag ADRA.	**CLERC**
9.0	**MYNWENT, MAES PARCIO A SAFLE MORIA**	
9.1	Cafwyd adroddiad gan y Clerc a'r Cadeirydd Iwan Huws bod cwyn wedi ei dderbyn ynglŷn â cherrig beddi llwch yn y fynwent. Mae rheolau'r Fynwent yn datgan bod maint beddi llwch i gael cerrig beddi o un maint tra bo beddi claddedigaethau i gael cerrig beddi maint arall. Yn anffodus er bod Trefnwyr angladdau yn gwybod y rheol yma ac yn cynghori eu client o hyn, mae rhai pobl yn mynd yn uniongyrchol at Seiri maen ac oherwydd hyn mae maint cerrig beddi claddedigaeth yn cael eu paratoi ar gyfer beddi llwch. Ar hyn o bryd mae rhai beddi llwch gyda maint cywir a rhai eraill a'r maint anghywir. Yn y gorffennol mae cais wedi ei dderbyn ar gyfer cyflwyno maint mawr i un o'r beddi ond gwrthodwyd, erbyn hyn mai carreg bedd wedi eu gosod	**CLERC**

	gyferbyn sydd o faint anghywir, cyflwynwyd yn ddiarwybod i'r Cyngor Cymuned ac o ganlyniad wedi codi i fod yn gŵyn. Penderfynwyd y ffordd i atal hyn ddigwydd byddai i newid y rheol ag i gael un maint ar gyfer y cerrig beddi llwch a chladdedigaeth. Cynigwyd hyn gan y Cynghorydd Iestyn Harris ac eiliwyd gan y Cynghorydd Dan Williams. Y Clerc i newid y Rheolau.	
9.3	Cofnodwyd bod claddedigaeth plentyn wedi ei wneud o fewn y fynwent. Yn unol â rheolau Llywodraeth Cymru nid oes cost ar gyfer hyn.	
10.0	**PROSIECTAU**	
10.1	Gweler eitem 5.9	
11.0	**NEUADD GOFFA A CHLOC**	
11.1	Cafwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Daniel Williams - gwaith angen ei wneud ar oleuadau'r neuadd, prisiau wedi eu derbyn gan y Cyngor. Mae trefniadau yn cael eu gwneud ar hyn o bryd go gyfer penderfynu dyddiadau i gwblhau'r gwaith.	
11.2	Gwaith ar y llawr yn cael ei wneud rhwng y 10fed a'r 29fed o Ionawr 2022. Defnyddwyr y neuadd wedi eu hysbysu o hyn. Mae pris wedi ei dderbyn eisoes. Efallai bydd prisiau coed yn cael effaith a'r hwn.	**DW/CLERC**
11.3	Mae postyn i'w osod ar y safle parcio gan y contractwr. Mae'r gwaith yma i'w wneud yn rhad ag am ddim.	**DW**
11.4	Mae'r llawr ger y drws tân angen gwaith cynnal. Bydd y Contractwr yn edrych beth yn union sydd ei angen tra bydd yn gweithio ar y safle.	**DW**
11.5	Oherwydd niferodd achosion cofid yn yr ardal mae Gŵyl y Felin wedi penderfynu canslo'r achlysur Carolau'r Nadolig eto eleni. Cytunwyd bod modd i Gŵyl y Felin ddefnyddio trydan o'r Cloc i oleuo coeden Nadolig sydd wedi ei osod ym maes parcio Neuadd hyr Eglwys.	**CLERC**
12.0	**GWEFAN**	
	Gwaith yn parhau i ddiweddaru'r wefan.	**CLERC/CR**
13.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
	Mae'r giât wedi ei chau yn ddiweddar, roedd hyn yn ddelfrydol ar gyfer rhoi hyfforddiant i rai o'r gwardeiniaid. Wrth gau'r giatiau gwelwyd bod angen ychydig o addasiad angen ar un ochr i un o'r giatiau.	**DW/EG**
14.0	**Nodi Profedigaeth.**	
	Cafwyd gwybodaeth bod aelod o'r Gymuned wedi ei ladd mewn damwain difrifol. Datganwyd cydymdeimlad dwysaf i deulu Mr Dan Evans yn eu profedigaeth.	
Er gwybodaeth	Nodwyd bod angen hysbysebu am geisiadau Cymorth Ariannol 2021-22 ar y wefan ac ar safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 20:00	
Llofnod:		**Dyddiad:**

ATODIAD

Adroddiad Bwyd Bendigedig Y Felinheli i'r Cyngor Cymuned
ar gyfer cyfarfod Nos Fawrth, 14eg o Ragfyr

Mae'r grŵp wedi bod yn hynod ffodus o dderbyn £2000 gan griw y Siop 'Pop-Up' yn dilyn y Sêl Fawr. Maent yn awyddus i ni wario yr arian ar rywbeth amlwg a gweladwy. Rydym wedi trafod cael gosod cynyhwysydd ar gyfer plannu a bwrdd picnic, a'n gobaith gyda'r arian uchod i'w cael eu gosod ar y cae chwarae wrth yr ardd gymunedol.
Rwyf wedi siarad gyda Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd ynglŷn â chaniatâd i osod un bwrdd picnic gyda lle i gadair olwyn ac un bocs uchel/raised bed ar gyfer plannu. Bwriad hyn ydy i roi cyfle i'r rhai sydd lai abl i blygu a garddio gallu ymuno mewn sesiynau gan weithio ar y bwrdd neu jest cael sgwrs a chwmni.
Roedd Llifon Folkes eisiau i mi gysylltu â'r Cyngor Cymuned gan eich bod wedi datgan diddordeb i gymryd gofal am y cae chwarae.
Rydym wedi derbyn map ac wedi edrych ar y safle. Credwn mai'r unig le a fuasai yn addas ydy bob ochr i'r fainc sydd wrth y ffens rhwng y cae chwarae a'r ardd gymunedol. Buasai hyn yn gadael digon o le i'r plant symud rhwng yr offer chwarae heb darddu ar y garddwyr a ni fuasai rhai yn plannu neu yn eistedd wrth y bwrdd yn amharu ar y plant.

Amgaeaf fanylion am y math o offer rydym yn bwriadu eu prynu. Maent wedi'u gwneud o blastig wedi'i ailgylchu a gyda gwarant o 25 mlynedd.

.Gwelyau ar gyfer plannu /Raised beds

Heather Lynne Jones

https://britishrecycledplastic.co.uk/product/recycled-raised-beds

Meinciau a byrddau picnic/ Benches and picnic tables

https://www.tdp.co.uk/product/wheelchair-access-picnic -table/

Hefyd, rydym wedi llwyddo gyda'n cais am grant gan Prosiect Môn a Menai. Roeddem wedi cynllunio i blannu mwy o goed ffrwythau, yn enwedig ar y darn tir gyferbyn a Cherrig yr Afon, ynghyd a chael bwrdd picnic babanod yna a hysbysfyrddau gwybodaeth am flodau gwyllt.

Rydym hefyd eisiau gosod bwrdd picnic a 'raised beds' ar y Lôn Las wrth y fynedfa o Benybryn, lle mae darn mawr o dir.

Derbyniwyd caniatâd gan Wyn Williams, Cyngor Gwynedd i wneud hyn ond wedi rhoi cais ar frys, deallais wythnosau yn ddiweddarach mai'r Cyngor Cymuned sydd â chyfrifoldeb am y tir hwn. **Rwyf wedi anfon y ddogfen Excel ymlaen efo gwybodaeth am yr uchod.

Gobeithiaf fod modd i chi gefnogi ein cynlluniau ond rydym bob amser yn agored i drafodaeth. Gallwch gysylltu â Delyth Jones neu finnau am ragor o wybodaeth.

Diolch yn fawr.
Anwen Roberts,Ysgrifenydd